

Blaenau Siopau

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 **Mae'r Nodyn hwn yn un o gyfres o Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), sy'n ymhelaethu ar bolisiau'r cynllun datblygu a materion eraill mewn diwyg clir a chryno gyda'r nod o wella dyluniad ac ansawdd datblygiadau newydd. Bwriad y Nodiadau yw cynnig canllawiau bras a fydd o gymorth i aelodau'r cyhoedd a swyddogion mewn trafodaethau cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio ac o gymorth i swyddogion wrth drin ac aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.**

2. STATWS A CHAMAU PARATOI

- 2.1 Nid yw Nodiadau CCA y Cyngor yn rhan o'r cynllun mabwysiedig. Serch hynny, maent wedi bod yn destun penderfyniad ffurfiol gan y Cyngor ac ymgynghoriad â'r cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau, yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd a chymeradwyaeth ddilydol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), y gall CCA gael ei drin fel ystyriaeth gynllunio berthnasol pan fydd Awdurdodau Cynllunio Lleol, Arolygwyr Cynllunio a'r Llywodraeth Cymru yn penderfynu ceisiadau ac apeliadau cynllunio. Cymeradwywyd y Nodyn hwn gan y Cyngor ar 25fed Gorffennaf 2001 i'w ddefnyddio wrth reoli datblygiadau. Mae datganiad yn nodi'r ymgynghori a gyflawnwyd, y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau hyn ar gael fel dogfen ar wahân.
- 2.2 Mae'r nodiadau hyn wedi'u paratoi'n unol â chanllawiau a gynhwysir yng Nghanllawiau Cynllunio (Cymru), Polisi Cynllunio; Cynlluniau Datblygu Lleol (Cymru); Nodiadau Cyngor Technegol.

3. CEFNDIR

- 3.1 Derbynnir yn gyffredinol bod blaenau siopau'n gwneud cyfraniad pwysig iawn at gymeriad cyffredinol ein canolfannau siopau trefol a rhanbarthol. Maent yn galluogi siopau ac adeiladau masnachol eraill i gyflwyno eu nwyddau a'u gwasanaethau. Mae'r canolfannau siopa trefol a rhanbarthol yn Sir Ddinbych yn cynnwys nifer o arddulliau sydd wedi datblygu dros amser ac wedi cyfrannu at gymeriad unigryw pob un.
- 3.2 Ambell dro bydd blaenau siopau'n rhan o adeilad newydd arfaethedig a byddant yn destun cais am y caniatâd cynllunio arferol. Wrth benderfynu cais o'r fath, bydd yr awdurdod hwn yn cymryd perthynas blaen y siop â'r adeilad fel cyfanwaith ac â'i gymdogion i ystyriaeth. Nid bwriad yr awdurdod hwn yw bod yn rhy orchmynnol neu fygu dylunwaith arloesol ond bydd llwyddiant cais am ganiatâd cynllunio yn dibynnu'n rhannol ar ba mor dda y mae adeilad newydd neu flaen siop yn cyd-fynd â golygfa gyffredinol y stryd a drychiad ac arddull bensaernïol yr adeilad y mae'n rhan ohono.
- 3.3 Yn y gorffennol diweddar bu dirywiad arwyddocaol iawn yn ansawdd dylunwaith blaenau siopau. Yn llawer rhy aml bu tybiaeth gyfeiliornus y gellir edrych ar flaen y siop yn annibynnol ar ddylunwaith cyffredinol yr adeilad neu'n annibynnol ar ei gymdogion. Y prif fater y rhoddir sylw iddo yn y canllawiau hyn fodd bynnag yw dylunwaith blaenau siopau ar gyfer adeiladau sydd mewn bod pa un a ydynt yn newidiadau i flaenau siopau sy'n bod neu'n flaenau siopau newydd ar gyfer adeiladau sydd â defnydd arall iddynt ar hyn o bryd. Bydd y daflen hon yn cynnig cyfarwyddyd ar yr amrywiol elfennau sy'n mynd beth ffordd tuag at arfer da mewn dylunio blaenau siopau.

- 3.4 Fel rheol mae hysbysebion yn mynd gyda blaenau siopau, pa un ai ar ffurf arwyddion wynebfwrdd neu arwyddion sy'n estyn allan / hongian. Wrth ystyried y dylunwaith a'r defnyddiau mae angen dal sylw ar y math o hysbyseb, gan y bydd y ddau yn mynd 'law yn llaw'. Ceir mwy o fanylion ar arwyddion yn y CCA 17 'Hysbysebion'.
- 3.5 D.S. At ddiben yr arweiniad hwn mae siop yn cynnwys adeiladau anfanwerthol megis arcedau difyrion, siopau betio, cymdeithasau adeiladu, caffis, siopau glanhau dillad, swyddfeydd gwerthu tai, lleoedd trin gwallt, golchdai, bwytai a swyddfeydd teithio yn ogystal â'r adeiladau manwerthu mwy arferol, ac unrhyw ffasâd arall sydd wedi'i gynllunio i fod yn debyg i siop.

4. POLISI

- 4.1 Nid oes dim polisi cynllun datblygu ffurfiol yn ymwneud â blaenau siopau. Serch hynny, byrdwn cyffredinol ffordd y Cyngor o fynd ati yw darparu blaenau siopau sydd wedi'u cynllunio'n dda i gydweddu ag amgylchiadau lleol arbennig, sy'n amrywio ar draws y Sir. Mae'r nodyn hwn yn ymwneud yn bennaf â'r blaenau siopau traddodiadol sydd i'w cael yn llawer o ganol trefi a phentrefi y Sir er y bydd y canllawiau hefyd yn berthnasol yn gyffredinol i flaenau siopau mewn canolfannau siopa cyfoes. Mae'r Cyngor yn cydnabod anghenion masnachol busnesau i 'agor' eu hadeiladau i'w gwneud yn fwy dengar i gwsmeriaid. Er hynny, mae angen cyfyngiadau a rheolaeth, yn arbennig gan y bydd y rhan fwyaf o ganol trefi a phentrefi'n cynnwys adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth. Yn yr achosion hyn, mae angen cymryd sylw arbennig i sicrhau bod hanfod cymeriad a chyfanrwydd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i wella. Mae angen i ganolfannau masnachol gystadlu; un o'r ffyrdd gorau o wneud hyn yw cadw eu cymeriad a'u naws lleol gwahaniaethol drwy gadw eu pensaernïaeth arbennig a pheidio â chaniatáu i hyn gael ei niweidio neu'i wanhau gan arddulliau unffurf cwmnïau.

5. HANES

- 5.1 Mae siopau fel y deallwn ni hwy heddiw yn gynnyrch y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif I raddau helaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r dyluniadau mwy llwyddiannus yn dyddio o'r cyfnodau Sioraidd, Fictoraidd neu Edwardaidd ac maent o ansawdd eithriadol o uchel. Blaenau siopa Sioraidd yn teuddlu i gael dim ond. Roedd datblygiad y blaen siop traddodiadol yn ymdrech i gyflawni nifer o ofynion:
- darparu man arddangos;
 - hysbysebu'r busnes;
 - darparu diogeliad digonol;
 - diogelu'r nwyddau rhag y tywydd;
 - denu cwsmeriaid i'r adeilad.
- 5.2 Fe ganiataodd codi'r tollau ar wydr yn 1845 a gwelliant yn y defnyddiau a'r dechnoleg adeiladau i flaenau siopau gael eu cynllunio'n aml ar draws lled cyfan eiddo, gan felly ddarparu mannau arddangos mawr. Roedd darparu drws allan cilfachog nid yn unig yn fwy dengar i gwsmeriaid ond eto'n caniatáu i arddangosfa'r ffenestr gael ei hestyn.
- 5.3 Mae'r rhan fwyaf o flaenau siopau traddodiadol o'r hyn y gellid ei alw'n gyffredinol yn ddyluniad clasurol. Mae hyn yn ffordd arbennig o briodol o ganiatáu i olwg y llawr cyntaf a'r ail lawr, sy'n aml yn drwm, gael ei gario'n weledol gan yr wynebfwrdd a'r pilastrau. Mewn gwirionedd roedd y llwythi'n cael eu cymryd gan drawstiau a cholofnau dur a neu haearn.
- 5.4 Dylid cofio bod dylunwaith blaenau siopau wedi'i ddylanwadu erioed gan ffasiwn a thuedd bensaernïol ffasiynol y cyfnod. Felly nid yw'n anghyffredin i adeilad hên fod â blaen siop diweddarach o arddull pensaernïol gwahanol ond sydd o fewn harmoni llwyr â'r adeilad. Nid oes raid i flaenau siopau adlewyrchu oed neu arddull gwreiddiol adeiladau o angenrheidrwydd ond dylai eu dylunwaith gymryd yr adeilad gan gynnwys yn benodol maint a deunyddiau y ffasiwn, ei gymdogion, a chymeriad yr ardal yn ei chyfanrwydd i ystyriaeth.

6. NODWEDDION BLAEN SIOP TRADDODIADOL

- 6.1 Y ffordd fwyaf effeithiol o egluro'r prif elfennau sy'n ffurfio blaen siop traddodiadol yw drwy gyfrwng darluniadau. Disgrifir yr elfennau yn eu tro hefyd:

Stôl godwyr

- 6.2 Mae'r rhain yn darparu gwaelod blaen y siop, yn gorfforol ac yn weledol. Dyma'r rhan rhwng y ddaear a'r silff ac yn nodweddiadol mae'n solet. Dylai stôl godwyr fod o'r un defnydd a gorffeniad â gweddill blaen y siop fel rheol neu dylent fod yn gydymdeimladol â'r adeilad. Bydd enghreifftiau'n cynnwys paneli pren wedi'u paentio, carreg neu rendr. Gallant hefyd gael eu hatgyfnerthu'n fewnol i ddarparu diogelwch ychwanegol, yn enwedig oddi wrth ymosodiadau hyrddio.

Pilastrau a Chonsolau

- 6.3 Mae pilastr yn golofn wastad sy'n sefyll allan ychydig oddi wrth y wal. Nid yw'n strwythurol ond mae'n darparu ymyl cryf i'r blaen siop ac yn helpu i ddiffinio'r blaen siop ei hun a'r berthynas â'r adeilad uwchben. Gall pilastrau fod yn weddol blaen, neu gallant gynnwys nodweddion addurnol ar ffurf bracedi consol. Mae'r rhain yn nodweddion pensaernïol addurnol, sy'n ffurfio'r gyffordd rhwng y pilastr a'r wynebfwrdd, gan wahanu'r blaen siop o flaen siopau cyfagos. Gall pilastrau fod yn weddol blaen, neu gallant ymgorffori nodweddion addurnol (consolau).

Wynebfyrddau a Chornis

- 6.4 Mae pen uchaf y blaen siop yn draddodiadol yn cynnwys wynebfwrdd. Fel arfer mae'n bren a dyma lle mae'r arwydd siop wedi'i leoli. Ni ddylai dyfnder yr wynebfwrdd, fel synnwyr y fawd, fod yn ddim mwy na phumed ran o'r dimensiwn o'i dop i lawr i'r palmant. Gall wynebfyrddau fod yn wasted â blaen y siop neu gallant fod ar ongl fel bod modd darllen unrhyw arwydd yn rhwydd. Mae arwyddion effeithiol yn tueddu i fod â llythrennau wedi'u hysgythru, wedi'u paentio â llaw neu mewn llythrennau wedi'u cymhwyso mewn arddull addas i raddfa a dyluniad y blaen siop gwreiddiol. Cornis yw rhan uchaf y ffasgia. Mae fel arfer yn sefyll allan ychydig o'r ffasgia ac yn creu toriad gweledol rhwng blaen y siop a'r lloriau uwch ben. Gall cornis fod yn ddim ond nodwedd addurnol uwchben yr wynebfwrdd neu gellir ei ddefnyddio i guddio llenni tywyll codadwy neu gaeadau rholer.

Ffenestri a Drysau Siopau

- 6.5 Mae'r rhain yn ffitio yn y ffrâm neu'r oddi-amgylch, a ddarperir gan y stôl godwyr, y pilastrau a'r wynebfwrdd. Dylent ddarparu golwg cytbwys, gan gymryd blaen y siop a lleoliad ffenestri ar y llawr cyntaf i ystyriaeth. Lle y bo'n briodol gellir ystyried rhannu ffenestri siopau gyda bariau gwydro i ychwanegu cryfder i'r blaen siop a lleihau maint pob paen gwydr. Gall paenau llai leihau'r gost o newid unrhyw wydr sydd wedi torri. Fertigol yw bariau gwydro fel arfer ond gallant fod yn llorweddol hefyd tuag at ben uchaf y ffenestri. Gellir defnyddio gwydr gwydn neu wydr diogelwch i ddarparu cryfder a diogeliad ychwanegol.
- 6.6 Bydd angen i leoliad y drws eto fod yn gydymdeimladol â 'chydbwysedd blaen y siop a'r adeilad uwchben'. Gall drysau fod yn ganolog neu yn un pen blaen siop. Gallant naill ai fod yn gywastad â blaen y siop neu'n gilfachog i ddarparu cysgod a chreu mynedfa sy'n gwahodd ac wedi'i diffinio'n dda.

7. DYLUNIO / NEWID BLAENAU SIOPAU TRADDODIADOL

- 7.1 Cynghorir gofal wrth ddylunio blaenau siopau. Rhaid edrych ar bob achos yn unigol a dylid rhoi ystyriaeth lawn i'r ffactorau a fydd yn effeithio ar y dylunwaith yn swyddogaethol ac yn weledol.

- 7.2 Wrth ddylunio neu newid blaen siopau traddodiadol rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio manylion priodol sy'n berthnasol i'r cysyniad cyffredinol, cyd-destun yr adeilad yn ei gyfanrwydd a'r strydwedd ehangach. Mae tuedd i edrych ar ddylunio blaen siopau fel proses, ac anwybyddu'r materion hynod bwysig hyn. Gall hyn arwain at nodweddion anfoddhaol a gall y blaen siop gorffenedig edrych yn debyg iawn i barodi o'r gwir beth. Rhoddir cyfeiriadau ar ddiwedd y daflen a ddylai fod o gymorth.
- 7.3 Bydd angen gofal arbennig gyda chynigion ble mae dwy neu fwy o siopau neu 'unedau manwethu' yn cael eu cyfuno i ffurfio un siop. Gall defnyddio wynebfwrdd di-dor ar draws sawl blaen siop fod yn anneniadol ac yn weledol drech. Dylid dyfeisio ffyrdd o gysylltu'r unedau â'i gilydd yn weledol i sicrhau thema gyffredin ar gyfer y siop dan sylw, efallai drwy flaenau siop sy'n cydweddu wedi'u gwahanu gan bilastrau.
- 7.4 Dylid nodi y bydd llawer o flaenau siopau o fewn canolfannau siopa trefol neu ranbarthol, y mae llawer ohonynt wedi'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Gall eraill yn hawdd iawn fod yn rhan o adeiladau rhestredig. Yn y ddau achos, bydd angen gofal arbennig i sicrhau blaen siop boddhaol sy'n gydnewts â'r adeilad a'r gymdogaeth.

8. DEFNYDDIAU A GORFFENIADAU

- 8.1 Cafodd y rhan fwyaf o flaenau siopau traddodiadol eu hadeiladu mewn pren meddal a'u paentio. Fodd bynnag, gan fod llawer o'r pren meddal sydd ar gael yn rhwydd yn awr yn gallu bod o ansawdd gwael, mae tuedd i ddefnyddio pren caled trofannol yn ei le. Mae pren caled o'r fath yn aml yn anodd i'w baentio oherwydd ei olewau naturiol a'r canlyniad yw naill ai gorffeniad paent o ansawdd gwael neu olwg nad yw'n un traddodiadol. Dylid ystyried defnyddio paentiau microhydraidd sy'n caniatáu i'r pren 'anadlu', ac fel yma leihau fflawio.
- 8.2 Yn achlysurol fe all farnais fod yn briodol, yn arbennig ble mae pren o ansawdd uchel, megis Derw Cymreig, wedi'i ddefnyddio er y gall hyn atal y pren rhag anadlu. Dewis arall mwy addas yw olew 'Danaid' neu olew 'Tic'. Bron yn ddieithriad nid yw gorffeniad staen yn briodol. Ym mhob achos, bydd angen gofal wrth ddewis ac wrth daenu gorffeniad i sicrhau golwg o ansawdd uchel a fydd yn para.
- 8.3 Dylid cymryd gofal mawr wrth ddewis lliwiau. Ceisiwch osgoi'r temtasiwn i ddewis lliwiau llachar er mwyn tynnu mwy o sylw. Os yw pob siop wedi'i lliwio'n llachar nid oes dim budd yn unigol ac mae'r effaith gyffredinol yn goegwych. Mae'r rhan fwyaf o'r prif gyflenwyr paent yn awr yn cynhyrchu dewis o liwiau sy'n briodol i gyfnodau arbennig. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn llawer mwy tawel ac ysgafn.

9. LLENNI TYWYLL NEU GANOPIAU

- 9.1 Roedd gan lawer o flaenau siopau traddodiadol rhyw ddull o sgrinio arddangosfeydd rhag golau haul uniongyrchol, gan roi cysgod a chaniatáu edrych ffenestri siopau mewn tywydd gwlyb.
- 9.2 Mae canopiau sefydlog o'r math traddodiadol sydd wedi'u hadeiladu o haearn bwrw a gwydr yn cael effaith sylweddol ar olygfa'r stryd. Ble maent yn rhai gwreiddiol dylid eu cadw ond byddai'n rhaid ystyried canopiau newydd, ble nad oes dim traddodiad o'u defnyddio, yn ofalus iawn. Dylid cadw llenni tywyll codadwy traddodiadol hefyd ble maent yn nodwedd sydd mewn bod. Mae llenni tywyll newydd o'r math yma i'w hannog hefyd ar yr amod y cydymffurfir yn foddhaol â gofynion diogelwch ar gyfer cerddwyr a thraffig cerbydol. Dylai llenni tywyll ffitio o fewn ac nid cuddio pilastrau (ble maent yn nodwedd o flaen y siop). Dylai'r wâl ar gyfer y llen dywyll, pan fydd wedi'i thynnu yn ei hôl yn llawn, fod o'r golwg o fewn y cornis neu o leiaf islaw'r wynebfwrdd. Dylai'r llenni tywyll eu hunain fod o ddefnydd canfas yn hytrach nag yn blastigau disglair.
- 9.3 Nid yw llenni tywyll 'Iseldirol', sydd â siâp crwm neu oddfog, yn draddodiadol i Sir Ddinbych ac yn anaml iawn y maent yn ychwanegiadau boddhaol at ein trefi a'n pentrefi.
- 9.4 Fe all llenni tywyll neu ganopiau newydd fod ag angen caniatâd cynllunio a/neu ganiatâd hysbys. Bydd Swyddogion Cynllunio yn gallu cynghori ar achosion unigol.

10. DIOGELIAD

- 10.1 Mae diogeliad yn y Stryd Fawr yn fater cynyddol bwysig. Mae ei angen i ymladd tair elfen ar wahân, lladrad, fandaliaeth a lladrata â cherbydau hyrddio. Nid yw mesurau i wneud siopau'n ddiogel yn newydd. Roedd siopau cynnar yn cael eu diogelu gyda chaeadau pren y gellid eu tynnu i lawr a oedd yn cael eu dal yn eu lle â bariau haearn. Yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg daeth caeadau rholer pren neu fetel yn gyffredin ac roeddynt wedi'u cyfuno yn nylunwaith blaen y siop.
- 10.2 Wrth ddylunio blaen siop newydd dylai pob agwedd ar ddiogeliad, yn cynnwys eitemau megis larymau lladron, fod yn rhan hanfodol o'r dylunwaith er mwyn osgoi'r argraff eu bod wedi'u "hychwanegu". Gall blaenau siopau traddodiadol gyda gwydr cwarelau llai, trawslathau, myliynau a stôl godwyr fod yn anos i dorri i mewn iddynt na darnau mawr o wydriad undonog (ac mae cwarelau llai yn haws ac yn rhatach i'w hadnewyddu). Gall stôl godwyr fod yn adeileddau congrid sylweddol (yn guddiedig yn allanol) a gall bariau gwydro gael eu hatgyfnerthu â thrychiadau "T" metel.
- 10.3 Yn aml mae angen caead gan ei fod yn ofyniad gan gwmnïau yswiriant neu oherwydd natur a lleoliad y busnes. Os felly y mae hi, gril neu gaead delltog mewnol fydd yr opsiwn dewisol. Yn dibynnu ar natur a gwerth y nwyddau a arddangosir ym mlaen y siop efallai y bydd yn bosibl lleoli caead delltog y tu ôl i'r arddangosfa ffenestr, yn arbennig yn yr ardaloedd hynny ble mae Teledu Cylch Caeëdig yn gweithredu. Bydd dyluniadau delltog yn hwyluso edrych ffenestri siopau liw nos, archwilio mewnol gan yr heddlu, ac yn cyfrannu at amgylchedd liw nos atyniadol.
- 10.4 Ni argymhellir caead soled gan yr heddlu gan nad yw'n caniatáu i'r lle y tu mewn gael ei weld. Caeadau rholer soled allanol yw'r opsiwn gwaethaf o bell ffordd. Maent yn cuddio manylion pensaernïol ac yn gwahodd graffiti, sy'n cyfrannu at y portread cyffredinol o ddirywiad. Os felly dylai eu dyluniad gael ei gyfuno hyd y gellir yn nhu blaen y siop, dylai fod yn dyllog er mwyn gallu gweld i mewn i'r siop a dylai'r lliw fod yn briodol i'r adeilad a'r ardal yn ei chyfanrwydd. Fel rheol, bydd pob caead allanol ag angen caniatâd cynllunio tra na fydd systemau mewnol ag angen hynny.
- 10.5 Mae gwydr yn ystyriaeth bwysig ym mater diogeliad. Mewn gwirionedd dim ond dau fath o wydr sy'n cyfuno diogelwch gyda diogeliad yn iawn, sef gwydr haenog neu wydr gwydn. O'r ddau mae gwydr haenog yn anos i dorri drwyddo ac yn fwy na thebyg yn rhoi fwyaf o ddiogeliad. Bydd y math o wydr a ddefnyddir yn bwysig hefyd wrth atal anaf o ganlyniad i ddamwain.

11. CANIATÂD

- Mae angen caniatâd cynllunio ble mae unrhyw waith yn golygu "datblygu", megis adnewyddu a newid blaen siop. Ni fyddai mân newidiadau neu atgyweirio blaenau siopau ag angen caniatâd cynllunio ar yr amod bod gwaith yn cael ei wneud ar sail debyg am debyg.
- Os yw adeilad wedi'i restru yna byddai unrhyw newid yn fewnol neu'n allanol ag angen caniatâd adeilad rhestredig. Byddai angen profi nad yw unrhyw waith yn niweidiol i gymeriad yr adeilad. Mae'r caniatâd hwn yn ychwanegol at unrhyw ganiatâd cynllunio a all fod ei angen.
- Os yw adeilad o fewn Ardal Gadwraeth roedd hi'n angenrheidiol, tan yn ddiweddar, cael caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer rhannol ddymchwel adeilad, yn cynnwys blaenau siopau. Yn dilyn penderfyniad diweddar yn yr Uchel Lys nid yw hyn yn wir bellach. Er hynny, cyn bwrw ymlaen ag unrhyw ddymchwel o fewn Ardal Gadwraeth, mae'n ddoeth gofyn am gyngor gan yr adran hon.
- Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hysbysebion yn gymhleth. Cyn gwneud unrhyw waith sy'n gysylltiedig â hysbysebion siop mae'n werth holi'r adran hon ynghylch cael caniatâd.
- Fe all fod angen cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu ar gyfer gwaith arbennig sy'n gysylltiedig â blaenau siopau. Eto mae'n werth holi'r adran hon cyn gwneud unrhyw waith.

12. MYNEDIAD I BOBL GYDAG ANABLEDDAU

- 12.1 Ble mae angen cymeradwyaeth Rheoliad Adeiladu yna bydd angen cydymffurfio â rhan "M" y Rheoliadau Adeiladu, sy'n ymdrin â mynediad i rywun anabl. Byddai angen cymeradwyaeth Rheoliad Adeiladu ble er enghraifft y mae siop newydd yn cael ei chreu mewn adeilad a oedd yn cael ei ddefnyddio'n ffurfiol at bwrpas gwahanol. Ble mae blaen siop newydd yn cymryd lle un sydd mewn bod yn unig efallai na fydd angen cymeradwyaeth Rheoliad Adeiladu. Serch hynny byddai'r Awdurdod hwn yn annog darparu mynediad i bobl gydag anableddau ble mae'n rhesymol bosibl ei ddarparu. Mewn rhai achosion fe all darparu mynediad i'r anabl dynnu oddi wrth gymeriad adeilad rhestredig. I gael cyngor ar oresgyn yr anawsterau hyn mae'n werth cael trafodaeth gyda Swyddogion o'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

13. ATGYWEIRIO NEU ADNEWYDDU

- 13.1 Ble mae blaen siop traddodiadol dal yn ei le mae'n ddoeth ystyried ailwampio ar sail debyg am debyg yn hytrach nag adnewyddu. Ni fyddai angen caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth rheoliad adeiladu ac yn ogystal gall fod yn rhatach yn aml ac fe all arwain at well dyluniad. Weithiau mae blaen gwreiddiol y siop wedi'i guddio y tu ôl i newid diweddarach sydd ddim ond angen cael gwared arno. Os yw blaen siop traddodiadol wedi dirywio y tu hwnt i'w atgyweirio cymerwch sylw o'r dylunwaith a cheisio ei atgynhyrchu hyd y gellir.

14. ADEILADAU MODERN / CANOLFANNAU A RHODFEYDD SIOPA DAN DO

- 14.1 Bydd yna achosion ble gall blaenau siopau mwy 'modern' yn nhermau dylunwaith a defnyddiau fod yn dderbyniol ar yr amod bod y canlyniad terfynol yn uchel ei ansawdd. Bydd y Cyngor yn dal i geisio sicrhau bod blaen siop yn gydnaws â'r adeilad a blaenau siopau cyfagos. Bydd yr egwyddorion a gynhwysir yn y nodyn hwn yn dal i ddarparu canllawiau defnyddiol.

CRYNODEB O'R CYNGOR ALLWEDDOL

- Gofynnwch am gyngor gan Adain Gadwraeth y Cyngor
- Cysylltwch ddylunwaith blaen siop â'r adeilad yn ei gyfanrwydd, ei gymdogion a chymeriad yr ardal.
- Wrth ddylunio blaen siop traddodiadol edrychwch ar flaenau siopau traddodiadol tebyg a daliwch sylw ar fanylion.
- Cymerwch ofal wrth ddewis y defnyddiau, y gorffeniadau a'r lliw iawn.
- Defnyddiwch lenni tywyll traddodiadol yn unig.
- Dylai blaen y siop gael ei gynllunio gan gadw'r hysbysebion arfaethedig mewn cof, gan y dylai'r ddau fod mewn harmoni
- Cymerwch anghenion diogeliad i ystyriaeth ond peidiwch â gadael l ddiogeliad reoli'r dylunwaith.
- Holwch ba ganiatâd sydd ei angen cyn archebu defnyddiau neu ddechrau gwaith.
- Dylai'r dylunwaith ddarparu ar gyfer pobl gydag anableddau.
- Atgyweiriwch flaenau siopau traddodiadol os yn bosibl.

Gwybodaeth Bellach

- Cadw – Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru
- Welsh Office Circular 61/96 'Planning and the Historic Environment: Historic Buildings and Conservation Areas'
- Book of Details and Good Practice in Shop-front Design (1993) – English Historic Towns Forum
- Shop-fronts and Advertisements in Historic Towns (1991) – English Historic Towns Forum
- Shop-fronts (2010) – Historic Scotland
- Traditional Shop-fronts – A Short Guide for Shop Owners (2010) – Historic Scotland
- Showcase your Shop-front – Edinburgh World Heritage Trust
- Shop front security report (1994) - British Retail Consortium
- Modern Practical Joinery (1908) - G Ellis